

## **Gwella Canlyniadau i Bobl Ifanc - Adolygu Ysgolion Canol y Dref**

Mae Cyngor Wrecsam wedi cytuno mai'r ffordd fwyaf priodol i wella dyheadau, dysgu a chyflawniad pobl ifanc yng nghanol y dref yn y tymor byr yw parhau i gefnogi a herio Ysgolion Uwchradd Clywedog a Rhosnesni i wella fel y maent (dw ysgol gyfun gymunedol 11-16 oed). Mae'r penderfyniad hwn wedi ei wneud yn dilyn ymgynghoriad ar gynigion i adolygu, ac o bosibl gwneud newidiadau sylweddol i'r ffordd y darperir addysg yng nghanol tref Wrecsam. Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio canfod p'un ai oedd diddordeb mewn sefydlu ysgol bob oed (3-16 oed) er mwyn ceisio gwella cyrhaeddiad a dysgu yn yr ysgolion hyn ac i wella trefniadau pontio.

Mae'n amlwg o'r ymgynghoriad bod ar bobl eisiau i'r ysgolion a'r Awdurdod Lleol flaenoriaethau'r gwaith o wella cyrhaeddiad a symud yr ysgolion o gategori Estyn cyn ystyried gwneud unrhyw newid strwythurol.

Mae'r ymgynghoriad hefyd wedi tynnu ein sylw at bryderon pobl ynglŷn â phrofiad y disgyblion wrth bontio rhwng addysg gynradd ac uwchradd (testun y bu i Senedd yr Ifanc ddewis fel pwnc allweddol ar gyfer eu grŵp blaenoriaeth addysg).

### **Ymatebion i'r Arolwg**

Derbyniwyd 510 ymateb i'r arolwg ar-lein. Roedd ar 94.78% (472) o'r ymatebwyr eisiau i'r Awdurdod barhau i herio a chefnogi Ysgol Clywedog ac Ysgol Rhosnesni i wella fel ag y maent.

Y rhesymau mwyaf cyffredin a roddwyd gan ymatebwyr ar gyfer y dewis a ffafrir ganddynt oedd:

- Mae angen mwy o amser a chefnogaeth ar ysgolion i wella (183);
- Does dim digon o dystiolaeth ynglŷn ag ysgolion bob oed (57);
- Pryderon y byddai ysgol bob oed yn cael effaith negyddol ar yr ysgol gynradd sydd ar hyn o bryd yn darparu addysg o safon uchel (51);
- Yr ysgolion bychain yw'r ysgolion gorau (51);
- Does dim angen y fath ystod oedran o ddisgyblion ar un safle (51).

Gofynnwyd i'r ymatebwyr gynnig dewisiadau eraill i'w hystyried. Yr awgrymiadau mwyaf cyffredin oedd:

- Creu ysgolion llai (31);
- Ystyried Llywodraethwyr ac Arweinyddiaeth yr ysgolion presennol (19);
- Buddsoddi mwy o arian mewn ysgolion (14); a
- Cefnogi athrawon da a gwella hyfforddiant ar gyfer athrawon eraill (11).

### **Gweithdy Aelodau**

Yn ystod y gweithdy hwn derbyniodd yr Aelodau gyflwyniadau ar y cysyniad o ysgolion bob oed gan Eifion Evans, Cyfarwyddwr Addysg Ceredigion, a Karen Evans, Cyn Bennaeth Ysgol y Grango. Roedd sylwadau'r Aelodau ar ddiwedd y gweithdy yn cynnwys:

- Yr angen am arweinyddiaeth gref yw'r ffactor allweddol yn llwyddiant unrhyw ysgol;
- Gallai'r model ysgol bob oed ddarparu nifer o gyfleoedd cyffrous - yn enwedig o ran pontio a gwella safonau;
- Nid Ysgol Clywedog ac Ysgol Uwchradd Rhosnesni o reidrwydd yw'r ysgolion mwyaf addas i gyflwyno model ysgol bob oed, yn enwedig yn y sefyllfa sydd ohoni.

## **Grŵp Trafod**

Gwahoddwyd rhiant-lywodraethwyr a staff o ysgolion cynradd ac uwchradd canol y dref, yn ogystal â chynrychiolwyr o'r cynghorau cymuned perthnasol, i drafodaeth ym Mhrifysgol Glyndŵr. Eglurodd David Williams, Pennaeth Ysgol Bob Oed Bro Pedr, Llanbedr Pont Steffan, cysyniad yr ysgol bob oed. Casgliadau cyffredinol y trafodaethau oedd:

- Dylid canolbwyntio ar gefnogi Ysgol Clywedog ac Ysgol Rhosnesni i wella;
- Mae'n well gan rieni ysgolion llai;
- Mae angen gwella trefniadau pontio;
- Mae gormod o sylw'n cael ei roi i addysg uwchradd ac felly bydd addysg gynradd yn dioddef yn sgil unrhyw gynnydd newydd
- Dylid cefnogi athrawon a dylid mynd i'r afael ag athrawon sy'n tanberfformio.
- Mae angen annog disgyblion Wrecsam (a'u rhieni) i aros yn Wrecsam ar gyfer eu haddysg uwchradd - canolbwyntio ar enw da;
- Mae rhinweddau pendant i'r model ysgol bob oed, yn enwedig ar gyfer dysgwyr blynyddoedd 5 i 8, sy'n llawn haeddu ei ystyried a'i weithredu mewn ysgolion nad ydynt ar hyn o bryd dan gategori Estyn.

Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch amseriad yr ymgynghoriad a p'un oedd y ffocws ar ysgol bob oed neu ar y ffordd orau i wella safonau Ysgol Clywedog ac Ysgol Rhosnesni.

## **Senedd Yr Ifanc**

Mae gan Senedd yr Ifanc (Senedd Ieuenctid Wrecsam) nifer o grwpiau blaenoriaeth sy'n ystyried materion allweddol sy'n wynebu pobl ifanc. Mae'r grŵp blaenoriaeth addysg yn canolbwyntio ar faterion pontio rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd a bu iddynt gynnal trafodaeth ar y cysyniad o ysgol bob oed. Y casgliadau cyffredinol oedd:

- Gall y cyfnod pontio rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd fod yn brofiad da i nifer o ddisgyblion - mae'n eich galluogi i dyfu i fyny ac i ddechrau â llechen lân;
- Mae angen paratoi pobl ar gyfer pontio drwy weithredu cynlluniau e.e. wythnos bontio;
- Y mater allweddol yw addysgu – mae cael llai o athrawon pan rydych chi'n dechrau yn yr ysgol uwchradd yn beth da (ond ni fyddai'n beth da os oes gennych chi athro gwael);

- Os yw ysgol bob oed yn wael, rydych chi yno am 13 mlynedd;
- Mae angen ariannu ysgolion yn iawn - cynnal adeiladau ysgol;
- Mae angen sicrhau ymddygiad da ac os oes llai o athrawon, byddwch yn eu hadnabod yn well. Ac os ydych chi'n dod i adnabod eich athrawon rydych chi'n fwy tebygol o ymddwyn yn dda iddynt.

## **Ymatebion Ysgrifenedig**

Mae'r Cyngor wedi derbyn tua hanner cant o lythyrau a negeseuon e-bost gan unigolion a grwpiau lleol ynghylch y dewisiadau arfaethedig ar gyfer gwella addysg yng nghanol y dref. Mae'r neges allweddol a welir yn yr ymatebion hyn yn gyson â'r ymatebion eraill a dderbyniwyd - cefnogaeth gref ar gyfer cefnogi a herio ysgolion i wella fel ag y maent.

Yn eu hymatebion ffurfiol i'r ymgynghoriad, mae'r ddau gorff llywodraethu yn nodi eu cefnogaeth ar gyfer dewis un; sef i gefnogi a herio Ysgol Clywedog ac Ysgol Rhosnesni i wella.

Mae'r adroddiadau perthnasol i Fwrdd Gweithredol y Cyngor, a chofnodion y cyfarfodydd pan drafodwyd y materion hyn, ar gael ar wefan y Cyngor:

Penderfyniad i ymgynghori:

<http://www.wrexham.gov.uk/MinutesData/ExBoard/Reports/hll1813.pdf>

Penderfyniad ar y dewis terfynol:

Ddim ar gael.